# Cyfarfod Blynyddol Cyngor yr Ysgolion Sul

Yn ystod mis Mehefin cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cyngor yr Ysgolion Sul, a hynny eto dros Zoom, er hwylustod i'r aelodau ac mewn ymgais i leihau'r teithio a'r ôl-troed carbon o bob cornel o Gymru. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Parch, Jennie Hurd, a chafwyd adroddiadau gan Aled Davies, y Cyfarwyddwr, ac Idris Hughes, y Trysorydd.

Gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Cyfarwyddwr:

Bu 2021 yn flwyddyn arall lle roedd Covid yn dal yn amlwg yn ein cymunedau. O'r herwydd, ni chynhaliwyd y digwyddiadau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn yr un modd, ni lwyddwyd i gael stondinau yn y cynadleddau enwadol na chwaith i gynnal nosweithiau hyfforddiant ac adnoddau. Bellach, mae llawer o ysgolion Sul lleol heb gyfarfod ers dwy flynedd, a nifer o athrawon yn dweud wrthym nad ydynt yn teimlo y gallant ailgychwyn am amryw resymau. Mae hon felly yn her wirioneddol i eglwysi ac arweinwyr ar gyfer y blynyddoedd nesaf, wrth feddwl am ffyrdd i gyrraedd plant a theuluoedd. Bydd y realiti hwn, rwy'n siŵr, yn ffocws arbennig i'n gwaith ni ar gyfer 2022 a thu hwnt, wrth feddwl am ffyrdd o ailgysylltu ac ailadeiladu ar gyfer y dyfodol.

Ond er ein pryder am y sefyllfa, mae'n braf adrodd hefyd i lawer o brojectau gael eu gwireddu, gyda nifer o ddeunyddiau print a llu o adnoddau digidol yn ymddangos. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio parhawyd i gynnal llawer o weithgarwch ar lein, a diolch am y llu o adnoddau digidol a baratowyd gan nifer o fudiadau i'w rhannu am ddim ar y we. Heb os, un o fendithion mawr y ddwy flynedd diwethaf yw bod ein pum gwefan wedi eu cryfhau'n sylweddol, a'n presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol wedi tyfu a'i ddatblygu. Cafwyd cyfleoedd i gynnal cyfarfodydd dros Zoom, weithiau ar lefel Cwrdd Chwarter, weithiau ar lefel ofalaethol, ac weithiau rhwng arweinyddion neu athrawon ysgol Sul yn lleol.

Erbyn hyn mae toreth o adnoddau ar gael am ddim ar y we, a'r un pryd mae nifer o gyfresi o werslyfrau mewn print, yn llyfrau athro a llyfrau lliw i blant. Heb os, nid oes prinder adnoddau, a her y dyfodol fydd marchnata ac annog pobl i'w defnyddio. Mae gwers yr Ysgol Sul i oedolion hefyd ar lein erbyn hyn. Bob wythnos cyhoeddwyd gwers a ffilm bwrpasol yn cael ei chyflwyno gan Denzil John, sydd i'w gweld ar sianel deledu TCC ar y we. Prin yw'r dosbarthiadau sy'n cyfarfod, ac o'r herwydd ataliwyd cyhoeddi gwers wythnosol newydd tan fis Medi 2022.

Bu i ni ryddhau llawer o adnoddau newydd ar ein tudalennau Facebook a gosod adnoddau newydd ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys myfyrdodau tymhorol, gweddïau, llyfrau gweithgaredd a lliwio i blant, a chyfres o wersi ysgol Sul ar gyfer y cartref. Cynhyrchwyd adnodd ar y Grawys i blant yn seiliedig ar *Beibl Bach Stori Duw*, llyfr myfyrdodau a lliwio ar y Grawys a Gorsafoedd y Groes, ac e-lyfr lliwio o stori'r Pasg. Ar gyfer y Nadolig paratowyd tair cyfres o weddïau, myfyrdodau a gweddïau ar gyfer oedolion, a rhai i deuluoedd eu rhannu gyda'i gilydd.

Llwyddwyd hefyd i gyhoeddi deg cyfrol brint yn ystod 2021, gan gynnwys pedwar Beibl lliw gwahanol i blant, a dwy gyfrol sylweddol o fyfyrdodau a gweddïau o waith y diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts.

Mae'r teitlau isod i gyd ar gael yn y siopau lleol:

*Y Comic Beiblaidd Anferth* – Beibl lliwgar i blant 7–11 oed, wedi ei ddylunio yn arddull y comic *Beano*.

*Stori Fwya'r Byd* – addasiad o gyfrol i blant 8–13 oed o Feibl yn arddull unigryw'r awdur Tom Gates.

*Beibl Storïwr y Teulu* – cyfrol newydd sy'n rhyw fath o Agor y Llyfr yn y cartref!

*Fy Meibl Lliw* – cyfrol addas ar gyfer plant 3–5 oed; Beibl o ffabrig cotwm.

*Y Llais* – sef fersiwn gwreiddiol Cymraeg o gyfrol yn arddull y Tabloid Bible.

*Cymer fy Munudau: gweddïau Elfed* – cyfrol o'r holl weddïau gwreiddiol o waith Elfed ap Nefydd Roberts.

*Gwerth y Funud Dawel: myfyrdodau Elfed* – casgliad cwbl wreiddiol o fyfyrdodau gan Elfed ap Nefydd Roberts.

*Derbyn a Dilyn Iesu* – deunydd gwreiddiol ar gyfer y dosbarth derbyn, wedi ei baratoi gan Elfed ap Nefydd Roberts.

*Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona* gan Gareth Lloyd Jones.

*Cofio Euros* gan John Pritchard (gol.) – cyfrol werthfawr i gofio cyfraniad sylweddol un o gymeriadau anwylaf bywyd crefyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes, sef Euros Wyn Jones.

*Meddyg y Galon Glwyfus: gofal am iechyd meddwl a chymwynas fawr Dr David Enoch* gan Robin Gwyndaf.

Mae nifer o gyhoeddiadau newydd ar gyfer 2022 ar y gweill gennym hefyd, gan gynnwys:

*Hoff Emynau'r Cymru* – cyfrol gan Rob Nicholls lle mae nifer o Gymry adnabyddus yn rhannu am eu hoff emynau.

*Dehongli Bywyd a Gwaith Moses* – esboniad gan Gareth Lloyd Jones.

*Goreuon 'O Ddydd i Ddydd'* – 365 myfyrdod o'r gyfres 'O Ddydd i Ddydd'.

*Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd* – deunydd ar gyfer yr Adfent.

*60 Mlynedd o Weinidogaethu* – cyfrol hunangofiannol gan D. Ben Rees.

*Geiriadur y Gair* – D. Geraint Lewis a'i eiriadur Beiblaidd.

*Llyfr crefftau bwyd Beiblaidd* – gwerslyfr yn cynnwys 60 o ryseitiau coginio.

*Llyfr gemau Beiblaidd* – gwerslyfr yn cynnwys dros 200 o gemau Beiblaidd.

*Llyfr arbrofion gwyddoniaeth Feiblaidd i blant* – gwerslyfr yn cynnwys dros 60 o arbrofion gwyddonol.

*Myfyrdodau Grawys Coeden Iesu* – casgliad o 40 ffilm fer, a 40 myfyrdod a gweddi ar gyfer y Grawys.

**Medalau Gee**

Gan na fu'n bosib cynnal dau gyfarfod torfol eleni, penderfynwyd cynnal nifer o gyfarfodydd lleol i gyflwyno medalau. Cyflwynwyd 21 medal Gee, a thair medal arbennig er anrhydedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyflwyno yn Amlwch, Wrecsam, Llanddarog, Llanybydder, Rhydaman, Caerfyrddin a Dre-fach. Bu i'r Cyngor gymeradwyo dyfarnu tair medal Gee er anrhydedd yn 2019 i dri a wnaeth gyfraniad nodedig i weinidogaeth plant yng Nghymru, sef y Parchedigion Catrin ac Ifan Roberts a Mr Nigel Davies. Wedi dwy flynedd o oedi, braf fu cael cyflwyno'r medalau iddynt hwythau hefyd yn ystod Hydref 2021.

Mawr obeithiwn y bydd modd dechrau trefnu ymweliadau a gweithgareddau eto yn fuan ac y cawn gyfle i gyfarfod ein cefnogwyr wyneb yn wyneb wrth adeiladu model hybrid o fod yn eglwys a chymuned Gristnogol.

Gan ddiolch am bob cefnogaeth.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr*